RHIFYN
ISSUE
24
18.04.20

Llais Llantrisant



DYDDIADAU ALLWEDDOL
KEY DATES

20.04.20 – Addysgu a dysgu o bell yn ail-ddechrau
Distance teaching and learning recommences
20.04.20 – Staff Llantrisant ar rota Hwb Llanhari
Llantrisant staff rejoin the Llanhari Hub rota
25.05.20 – Wythnos o wyliau - Sulgwyn
Week's break – Whitsun
01.06.20 – Addysgu a dysgu o bell yn ail-ddechrau
Distance teaching and learning recommences

CINIAWAU AM DDIM
FREE SCHOOL MEALS

I'r rhai ohonoch sy'n deilwng i hawlio ciniawau am ddim, ydych chi wedi cysylltu â RCT er mwyn hawlio'r taliad wythnosol? Cliciwch yma i wneud cais newydd am giniawau am ddim.
For those who are eligible to claim free school meals, have you contacted RCT to claim your weekly payment? Click here should you wish to make a new application for free school meals.

GOFAL PLANT BRYS
EMERGENCY CHILDCARE

Bydd darpariaeth Hwb Llanhari yn parhau am y dyfodol agos. Cliciwch yma am ragor o wybodaeth.
Llanhari Hub provision will continue for the near future. Click here for further information.

RHONDDA CYNON TAF

CYFATHREBU
COMMUNICATION

Fel arfer, byddwn yn cysylltu â chi trwy ebost, neges App a thrwy Twitter felly gofynnwn yn garedig i bawb fwrw golwg ar eu hebost yn rheolaidd, dihuno'r App negeseuon bob hyn a hyn a dilyn yr ysgol ar Twitter. Hefyd, rhowch wybod i'ch ffrindiau pan fydd neges a wedyn fydd neb yn colli unrhywbeth!
As usual, we shall contact you by email, App message and through Twitter. So, we kindly ask you check your email regularly, wake up the App now and again and follow the school on Twitter. Also, let your friends know when there has been some form of communication and, that way, nobody should miss anything!

TYMOR YR HAF 2020
SUMMER TERM 2020

Llythyr cyntaf Tymor yr Haf anarferol iawn sydd gennym eleni. Gobeithio fod pawb wedi cael cyfle i ymlacio dros y bythefnos ddiwethaf ac yn cadw'n ddiogel ac yn iach. Gobeithio, hefyd fod y plant, a chi, yn barod i ailgydio yn yr her o ddysgu o bell. Rhaid dweud fod y plant wedi bod yn wych yn ystod yr wythnosau diwethaf. Diolchwn iddynt am barhau i weithio'n galed a diolchwn hefyd i rieni, neu aelodau'r teulu, sydd wedi gweithio'n galed gyda nhw hefyd!
Gan fod y Gweinidog Addysg wedi cyhoeddi'r wythnos hon na fydd ysgolion yn ail-agor wedi gwyliau'r Pasg, bydd y system addysgu / dysgu o bell yn ailddechrau ar Ebrill 20fed heb y diwrnod HMS a drefnwyd ar gyfer y dyddiad yma. Nid oes sicrwydd ar hyn o bryd pryd fydd ysgolion yn ailagor.
The beginning of the Summer Term sees a very unusual first newsletter this year. We hope that everyone has had a chance to relax during the last fortnight and are keeping safe and well. Also, we hope that the children, and yourselves, are ready to take up the challenge once again of distance learning. It has to be said that the pupils have been great during the last few weeks. We should like to thank them for all their hard work and also thank you, or family members, who have been working hard in supporting them with their tasks!
Due to the Education Minister announcing this week that schools will not reopen following the Easter break, our distance teaching and learning systems will begin once again on April 20th with no INSET day originally scheduled for that day. At this moment in time, it is unsure as to when schools will return to normal.

Tasgau Dysgu o Bell *Distance Learning Tasks*

Bydd staff y Cyfnod Sylfaen yn gosod tasgau ar dudalennau eu dosbarthiadau ar wefan yr ysgol gyda staff Cyfnod Allweddol 2 yn parhau i osod tasgau trwy Google Classroom. Os bydd unrhyw blentyn yn mynychu Hwb Llanhari, mae cyfrifiaduron ar gael er mwyn iddynt gael mynediad at eu tasgau dyddiol. Os bydd unrhyw broblemau, cofiwch ebostio'r staff – cewch ddod o hyd i gyfeiriadau ebost y dosbarthiadau ar eu tudalennau gwe. Efallai chewch chi ddim ymateb yn syth gan fod y staff dal yn gweithio naill ai o'r tŷ neu yn Hwb Llanhari ond fe gewch ymateb mewn da bryd.
Foundation Phase staff will once again be posting their work on the class pages of the school website with Key Stage 2 staff continuing to post their tasks on Google Classrooms. Should any pupils attend Llanhari Hub, there are computers available for them to access their daily tasks. Should you experience any problems, remember to email the staff – you can find the class email addresses on the school website class pages. You may not receive an instant response since the staff are either working from home or at the Llanhari Hub but you will receive a response in good time.



